# Gweithdrefn agor pleidleisiau Cyfun

The Electoral Commission

1

**Agor y blwch pleidleisio pleidleiswyr post**

Cyfrif a chofnodi'r nifer o brif amlenni (amlen B)

Agor y prif amlenni (amlen B) a thynnu allan y datganiad pleidleisio drwy'r post a'r amlen papur pleidleisio (amlen A).

**Pob rhan o'r bleidlais bost heb eu dychwelyd? Neu wedi eu rhoi yn yr amlen anghywir?**

Gwrthod dros dro ac ychwanegu at y rhestrau hyn fel fo'n briodol.

- y rhestr o rifau papurau pleidleisio ar gyfer papurau pleidleisio a dderbyniwyd heb ddatganiadau pleidleisio drwy'r post dilys
- y rhestr o rifau papurau pleidleisio ar gyfer datganiadau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd heb bapurau pleidleisio

Gweler Cam 4.

2

**Gwirio'r dynodwyr personol ar y datganiadau pleidlais bost**

Gwahanu'r amlenni papurau pleidleisio o'r datganiadau pleidlais bost a chadw'r ddau mewn trefn

Defnyddio'r system wirio i bennu'r datganiadau pleidleisio drwy'r post sydd heb ddyddiad geni neu lofnod neu pan nad oedd yr un yn cyd-fynd. Barnu y rhain a llaw a gwrthod pan fyddant naill ai heb eu cynnwys neu os nad ydych yn gallu bodloni'ch hun eu bod yn ddilys.

Gwrthodir datganiadau pleidleisio drwy'r post annilys*. Fe nodir y datganiadau a'r amlenni gyda 'gwrthodwyd' a'u gosod mewn blwch ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd

Dim ond eu dyddiad geni sy'n rhaid i bleidleiswyr post gyda hepgoriad gwblhau

**Parhad...**

* Os oes yna wrthwynebiad i wrthodiad, dylid nodi'r datganiad pleidlais bost 'gwrthwynebwyd i'r gwrthodiad'. Ni all arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn gyflwyno gwrthwynebiad.

3

**Agor amlenni papurau pleidleisio drwy'r post**

Gwirio bod y rhifau ar y datganiad pleidleisio drwy'r post yn cyd-fynd â'r rhifau ar yr amlenni papur pleidleisio (amlen A). Tynnu a selio'r datganiadau pleidleisio drwy'r post wedi eu paru.

**Ddim yn cyd-fynd?**
Agorwch yr amlen. Mae papurau pleidleisio sy'n cyd-fynd a 'r datganiad yn ddilys a dylent fynd i'r blwch pleidlais bost. Mae'r rhai nad ydynt yn cyd-fynd yn cael eu gwrthod dros dro, gweler isod.

Agor yr amlenni papur pleidleisio (amlen A) a thynnu allan y papurau pleidleisio, gan sicrhau y cedwir y papurau pleidleisio â'u wyneb i lawr drwy'r amser

**Dim papur pleidleisio yn yr amlen?**
Nodwch nhw 'gwrthodwyd dros dro' a'u rhoi yn y blwch ar gyfer amlenni papurau pleidleisio a wrthodwyd. Ychwanegwch at y rhestr.

**Llai o bapurau pleidleisio na'r disgwyl?**
Nodwch amlen y papur pleidleisio 'gwrthodwyd dros dro' gan nodi pa bapurau sydd ar goll a'u rhoi yn y blwch ar gyfer amlenni papurau pleidleisio a wrthodwyd. Ychwanegwch at y rhestr. Gellir mynd ag unrhyw bapurau pleidlais a ddychwelwyd ymlaen at y cam nesaf.

Gwirio'r rhif ar yr amlen papur pleidleisio (amlen A) yn erbyn y rhif ar gefn y papur pleidleisio

**Ddim yn cyd-fynd?**
Dylai'r papur pleidleisio fod wedi ei atodi i'w amlen, ei nodi â 'gwrthodwyd dros dro' a'i roi yn y llestr ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd. Ychwanegwch at y rhestr.

Gadwch y papurau pleidleisio wyneb i lawr ar bob adeg. Peidiwch â gadael i eraill edrych ar y pleidleisiau ar y papurau pleidleisio. Gosodwch y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisiau post perthnasol neu flwch perthnasol a mynd ymlaen i Gam 5.

**Parhad...**

## 4

**Paru dogfennau a wahanwyd**

Gwirio'r ddwy restr wrthod (gweler cam 1) yn erbyn yr holl bapurau pleidleisio/datganiadau pleidlais drwy'r post sydd wedi eu dychwelyd ar wahân i'w datganiad pleidleisio drwy'r post/papur pleidleisio cyfatebol, ac os yn bosibl, eu paru. Cofnodi hyn ar y rhestrau.

Rhaid mynd â'r ddwy restr i sesiwn derfynol agor y pleidleisiau post i gyflawni unrhyw baru terfynol

Gosod y papurau pleidleisio nad ydynt i'w trin fel gwrthodwyd dros dro bellach yn y blwch pleidleisio perthnasol neu flwch priodol a gosod y datganiad pleidleisio drwy'r post yn y blwch priodol.

## 5

**Selio'r blwch pleidleisio drwy'r post**

Cyfrif a chofnodi'r cyfanswm o bapurau pleidleisio ar gyfer pob cystadleuaeth, gan gadw'r papurau pleidleisio wyneb i lawr ar bob adeg.

Nid yw'r pleidleisiau eu hunain yn cael eu cyfrif yn ystod y cam hwn

Gosod y papurau pleidleisio yn y blwch pleidlais bost perthnasol, y mae'n rhaid eu selio ar ddiwedd pob sesiwn agor a'u storio yn ddiogel